

## Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Hawliadau Trydydd Parti a Rheoli Datblygu

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





## Teitl y swydd: Rheolwr Hawliadau Trydydd Parti a Rheoli Datblygu

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi. Rydym yn chwilio am Rheolwr Hawliadau Trydydd Parti a Rheoli Datblygu i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS4 (SCP 35-37) £41,496 - £43,516

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Parc Menai, Bangor, Conwy neu Helygain

**Dyddiad cau:** 12/10/2023

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Bydd y Rheolwr Hawliau Trydydd Parti a Rheoli Datblygu yn gyfrifol am arwain ar y broses o adennill costau sy'n codi o ddifrod i eiddo Llywodraeth Cymru (LlC) sydd wedi'i achosi gan drydydd partïon yn ardal rwydwaith yr Asiantaeth, arwain ar y broses o amddiffyn hawliadau am iawndal yn erbyn LlC gan drydydd partïon, arwain ar y broses o ddarparu LlC â chyngor ar geisiadau rheoli datblygu, yn ogystal a arwain ar ymateb i bob cais am gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth



# Cyfrifoldebau

- I arwain ar y gwaith o ddatblygiadau a gweithrediadau prosesau a threfnau ar gyfer amddiffyn hawliadau a wnaed gan Drydydd Partïon yn erbyn (LlC), arwain ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau i reoli adfer hawliadau ar gyfer difrod i eiddo LlC yn unol â gofynion y Cynulliad fel a nodwyd yn Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd LlC (WGTRMM), ac i arwain ar ddatblygu, gweithredu a chynnal cofrestr o faterion cyfreithiol cyfredol sy'n effeithio ar Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA).

- Arwain ar ran yr Asiantaeth a sicrhau bod data gofynnol i amddiffyn hawliadau wedi'i gyfuno a'i yrru ymlaen i uned Hawliadau Trydydd Parti LlC mewn pryd i gynorthwyo mewn amddiffyn unrhyw hawliadau a wnaed yn erbyn Llywodraeth Cymru, a chynhyrchu adroddiadau cyson ar adferiad hawliadau a'u gwerth ar gais LlC.

- Cysylltu'n uniongyrchol â LlC, Awdurdodau Partner, Yswirwyr ac unrhyw randdeiliaid eraill ar bob hawliad sy'n ymwneud â materion yn unol â chanllawiau LlC, arwain ar archwiliadau i adnabod y rheini yr honnwyd iddynt fod wedi achosi difrod i eiddo LlC, ac ymateb i ymholiadau gan Yswirwyr a Chyfreithwyr fel bo'n briodol

- Monitro bob hawliad ac adrodd ar ei ddatblygiad, paratoi data rheoli perfformiad cyson a chynhyrchu adroddiadau rheoli perfformiad ar gyfer rheoli Busnes ac Ansawdd, ac arwain ar ddatblygiadau a gweithrediadau'r prosesau ar gyfer rhoi cyngor i LlC ynghylch ceisiadau Rheoli Datblygu sy'n gyfagos i'r cefnffyrdd.

- Rheoli a chydlynu eraill sydd yn rhoi cyngor technegol er mwyn sicrhau bod pob cyngor mewn pryd ac yn gyson, cysylltu gyda'r Awdurdod Cynllunio perthnasol i sicrhau bod pob ymateb ar amser ar bob ymgynghoriad sydd yn cael ei ddarparu gan yr Asiantaeth, ac arwain ar ddelio gyda phob cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

- Sicrhau bod pob ymholiad wedi'i gofnodi ac i gydlynu ymateb mewn da bryd, cynrychioli'r Asiantaeth mewn cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Awdurdodau Partner, ac sicrhau bod targedau wedi'u gosod gan y Rheolwr Busnes a Gweithrediadau Statudol yn cael eu cyflawni a chymryd camau priodol i gywiro unrhyw gamgymeriad.

- Dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ar safonau proffesiynol, gofynion statudol a datblygiadau technegol, a'u cynnal.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

Yr ydym yn chwilio am berson sydd yn ymroddgar, yn frwdfrydig ac â'r gallu i gymell ei hun, gallu arwain ac ysgogi eraill, a gallu trefnu llwyth gwaith a pherfformio i gwrdd â therfynau amser. Bydd angen i'r deilydd llwyddiannus gallu delio â phroblemau'n sensitif ond yn gadarn fel maent yn codi, gallu gweithio a chyfrannu'n effeithiol fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, gyda'r gallu i drefnu llwyth gwaith a pherfformio i gwrdd â therfynau amser, gallu gweithio gyda goruchwyliaeth gyfyngedig, sgiliau rhyngbersonol da, ac arddangos menter bersonol a'r gallu i ddelio â phobl ar bob lefel mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Yn gallu blaenoriaethu a gweithio dan bwysa a gallu delio â therfynau amser gwaith tynn.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Chwilio am berson sydd gyda gradd neu gyfwerth mewn maes sy'n briodol i ofynion y swydd e.e. cyllid, cyfreithiol, gweinyddiaeth.

## Profiad perthnasol

Profiad o weithio mewn amgylchedd Llywodraeth Leol gyda phrofiad o gyfathrebu â ffynonellau swyddogol ar amrywiaeth o lefelau. Profiad o gyfuno ac asesu data a defnyddio Systemau TGCh priodol gyda phrofiad o reoli tîm

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Sgiliau cyfathrebu sgiliau TG rhagorol gan gynnwys arbenigedd uchel mewn taenlenni, sgiliau profedig mewn cyfathrebu gyda'r gallu i ddelio â materion anodd yn sensitif. Gwybodaeth am systemau ariannol Awdurdodau Lleol (ledger/creditor/debtor ac ati) a thrwydded Yrru ddilys gyfredol.

## Gofynion ieithyddol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 28.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.